YSGOL DYFFRYN DULAS

# LLEISIAU DYFFRYN DULAS

https://www.ysgolcorrisapennal.cymru/

## SESIYNAU HUWCALELI









Rydym wedi bod yn lwcus iawn i gael Huwcalale i'r ysgol am sawl sesiwn dros y misoedd diwethaf yn ein dysgu i chwraea'r iwcalele. Ond, erbyn diwedd yr holl sesiynau, rydym wedi llwyddo i ysgrifennu can Nadolig gyda'n gilydd a'i recordio'n broffesiynol gyda rhyddm drymiau. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn ac yn hyderus iawn yn chwarae'r iwcalele rŵan!

Mae dysgwyr 4–7 wedi cael profiad cerddorol arbennig hefyd. Wrth ddysgu cordiau sylfaenol ar yr iwcalele, fe wnaethon nhw gydweithio i greu cân Nadolig unigryw. Roedd y neuadd yn llawn o ganu, sŵn clychau, ac ysbryd y Nadolig. Diolch o galon i Huwcalele am ysbrydoli ein dysgwyr bach ifanc! "Dw i'n hoffi chwarae'r iwcalele achos mae'n gwneud i fi deimlo'n hapus," meddai Barney. "Dw i'n hoffi chwarae offerynnau gwahanol a chreu synnau gwahanol. "Dw i'n caru chwarae'r iwcalele," meddai Arna.

TACHWEDD A RHAGFYR

# YSGOL DYFFRYN DULAS

## DIWRNOD PLANT MEWN ANGEN





Ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen, codwyd £37.57 at yr achos. Roedd pawb wedi dod i'r ysgol yn gwisgo pyjamas a cafwyd diwrnod llawn hwyl yn gwneud gweithgareddau Pydsi.

## GWEITHDY CODI'R TO

Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 gyfle i gymryd rhan yng ngweithdy drymiau.offer taro yn Ysgol Uwchradd Tywyn gydag ysgolion eraill y dalgylch. Roedd bwrlwm mawr i gael arbrofi efo drymiau a chyd-chwarae - dipyn o gynwrf a swn. Prynhawn arbennig.

## MEINCIAU NEWYDD

Diolch yn fawr i Gyngor Cymuned Corris am y meinciau newydd. Rydym yn ddiolchgar iawn am y gwahanol feinciau sydd wedi eu lleoli o amgylch yr ysgol.

## BAG2SCHOOL

Yn ystod casgliad Bag2 School mis Tachwedd, casglwyd 170kg o ddillad mewn sachau.
Mae'r ysgol wedi derbyn siec o £51 i Gronfa'r Ysgol. Diolch am eich cefnogaeth.



TACHWEDD A RHAGFYR

# YSGOL DYFFRYN DULAS

## POBURDD

Dydd Mercher olaf mis Tachwedd aeth Otis i Ysgol Bro Idris i gystadlu yn y gystadleuaeth Poburdd. Roedd llond bwrdd o gacennau dathlu wedi ei paratoi gan ddisgyblion rhanbarth Meirionnydd. Nid oedd llwyddiant tro 'ma ond roedd y gacen yn fendigedig. Dal ati gyda'r pobi Otis!



## PANTO

Bore Dydd Gwener ola mis Tachwedd aeth llond bws o ddisgyblion Blwyddyn 2- 6 y Ffederasiwn i Aberdyfi i wylio panto 'Brenin March' gan gwmni Mega. Cafodd pawb llawer o hwyl yn gwylio'r perfformiad ac rydym yn edrych mlaen at flwyddyn nesaf yn barod.








# GWEITHDAI GETH TOMOS







Cawsom gyfle arbennig yn ddiweddar i groesawu Mr T i'r ysgol. Daeth i gynnal gweithdy cerddoriaeth llawn egni, lle cafodd pawb roi cynnig ar guro drymiau gwahanol, dawnsio a chanu caneuon amrywiol. Roedd y sesiwn yn llawn hwyl, creadigrwydd a churiadau bywiog, profiad a wnaeth y plant wir fwynhau. Mae pawb yn edrych 'mlaen at gael croesawu Mr T yn ôl eto yn y dyfodol! "Roedd Mr T yn ddoniol," meddai Barney. "Roedd dawnsio efo'r sgarffiau yn lot o hwyl," meddai Elis. "Roeddwn yn hoffi dechrau'r sesiwn efo'r teganau meddal, yn enwedig pan oedd Mr T yn trio dychryn Mrs Court," meddai Evie

# CINIO NADOLIG





Diolch yn fawr i Mrs Jones am baratoi cinio nadolig blasus iawn i ni eleni. Rydym yn ddiolchgar iawn i Mrs Jonesam baratoi cinio blasus bob dydd, ond roedd y cinio nadolig yn arbennig iawn.





# FFAIR NADOLIG

Cynhaliwyd Ffair Nadolig nos Wener cynta mis Rhagfyr yn yr ysgol. Diolch i Ffrindiau'r Ysgol am drefnu'r Ffair eleni. Roedd y neuadd yn llawn stondinau, a daeth Sion Corn heibio. Roedd y plant wedi bod wrthi'n brysur iawn yn creu addurn Nadolig ar gyfer eu gwerthu yn y ffair gan roi gwyrddni bytholwyrdd mewn oasis. Roedd pawb wedi creu addurn gwych i roi yng nghanol bwrdd ar ddydd Nadolig, er bod eu bysedd ychydig y sór ar ôl bod yn gafael yn y celyn pigog! Bu'r plant hefyd yn brysur hefyd yn paratoi bagiau o fferins, ac addurniadau ar gyfer y goeden.





Diolch yn fawr hefyd i Mrs Sara Lewis am baratoi adddurniadau hyfryd i'w gwerthu yn y ffair i godi arian i'r ysgol.









# YSGOL DYFFRYN DULAS

## DIWRNOD SIWMPER NADOLIG





Ar Ddydd Iau, 11eg o Ragfyr bu i'r ysgol ddod ynghyd i ddathlu Diwrnod Siwmper Nadolig – un o'r diwrnodau mwyaf lliwgar a llawen yn y flwyddyn! Roedd disgyblion ac athrawon yn gwisgo eu siwmperi Nadoligaidd gorau, gyda phatrymau llawn hwyl yn amrywio o geirw a choed Nadolig i olau fflachlyd a phompoms. Roedd pawb yn mwynhau'r cyfle i ddangos eu siwmperi unigryw, Diolch i bawb am gymryd rhan a gwneud y diwrnod yn llawn hwyl a chwerthin. Mae'n wych gweld ysbryd Nadolig yn fyw yn ein hysgol!



## CARTREF DYFI





Bu disgyblion Ysgol Pennal ac Ysgol Dyffryn Dulas i ganu yng Nghartref Dyfi prynhawn Dydd Mercher olaf y mis. Roedd y preswylwyr wrth eu boddau yn gwrando ar y caneuon Nadolig.

# PARTI NADOLIG






Yn ystod yr wythnos olaf, cawsom llawer o hwyl yn Parti Nadolig y Ffederasiwn yn Ysgol Dyffryn Dulas.
Daeth Sion Corn i'n gweld, gan ein bod wedi bod yn blant da yn ystod y flwyddyn.
Cawsom ddisgo a gemau hwyl yn ystod y dydd











# GWASANAETH NADOLIG






Ar Nos Fawrth ola'r tymor, daeth disgyblion Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Pennal at ei gilydd i gynnal Gwasanaeth Nadolig arbennig yn Eglwys Pennal. Diwrnod cyn y gwasanaeth, cawsom ddiwrnod prysur yn ymarfer ar y cyd, gan greu awyrgylch Nadoligaidd bendigedig.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'n rhieni am eu cefnogaeth, yn enwedig am helpu gyda chludiant i Bennal.

Roedd y plant wrth eu bodd yn perfformio – gyda chaneuon, darlleniadau a chyfraniadau creadigol yn dod â gwir ysbryd y Nadolig i bawb. Roedd y gwasanaeth yn llwyddiant ysgubol, a phawb yn mwynhau'r profiad o fod yn rhan o ddathliad mor arbennig.

Diolch i bawb a gyfrannodd at wneud y noson yn un cofiadwy!



# YSGOL DYFFRYN DULAS

## AGOR Y LLYFR



Bu criw Agor y Llyfr yn ymweld â'r ysgol i gynnal gwasanaeth Cristingl arbennig diwedd y tymor. Cafodd y plant gyfle i wrando ar stori'r geni, dysgu am ystyr Cristingl, a chreu eu Cristingl eu hunain gyda chymorth y criw. Yn ogystal, fe wnaethant greu angel hardd fel rhan o'r gweithgareddau. Roedd yn brofiad ysbrydol ac addysgiadol, gan helpu'r plant i ddeall ystyr y Nadolig mewn ffordd ymarferol a chreadigol.
Diolch o galon i griw Agor y Llyfr am ddod i gynnal y gwasanaeth, ac am eu hymrwymiad i gynnal gwasanaeth misol yn yr ysgol.





